



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**CANLLAW I GYMERADWYAETH
FENTHYCA CYNGHORAU
CYMUNED A THREF**

Cyflwyniad

1. Mae'r canllaw hwn yn disodli pob canllaw blaenorol ar fenthyca gan gynghorau cymuned a chynghorau tref yng Nghymru.
2. Mae'r canllaw hwn yn nodi'r meini prawf sy'n cael eu cymhwyso fel arfer gan Weinidogion Cymru wrth benderfynu a ddylid darparu cymeradwyaeth fenthyca a sut y gall cynghorau cymuned a thref wneud cais am gymeradwyaeth fenthyca.
3. Wrth ystyried a ddylid gwneud cais am gymeradwyaeth fenthyca, dylai cynghorau cymuned a thref fod yn gwbl agored a thryloyw gyda'u trigolion a'u trethdalwyr yn eu holl drafodion. Gallai hyn gynnwys trafod cynigion mewn cyfarfodydd agored, a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd cyn ac ar ôl gwneud penderfyniad, er enghraifft ar wefan y cyngor neu drwy ei chyhoeddi mewn cylchlythyrau lleol.

Beth yw Cymeradwyaeth Fenthyca?

4. Mae cymeradwyaeth fenthyca yn ganiatâd ffurfiol a roddir gan Weinidogion Cymru trwy bwerau o dan baragraff 2 atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i alluogi cyngor cymuned neu dref i fenthyca arian at ddibenion cyfalaf. Heb y caniatâd hwn ni chaiff cyngor cymuned neu dref fenthyca arian oni chaiff ei fenthyca a'i ad-dalu yn ystod yr un flwyddyn ariannol.
5. Mae'r Ddeddf yn datgan y gall cyngor cymuned neu dref fenthyca arian:-
 - a) at unrhyw ddiben sy'n berthnasol i'w swyddogaethau o dan unrhyw ddeddfiad;
neu
 - b) at ddibenion rheoli ei drafodion ariannol yn ddarbodus.
6. Dylai ymgeiswyr, felly, sicrhau bod ganddynt yr awdurdod statudol angenrheidiol i gynnal y prosiect sy'n destun y cais y maent yn ei gyflwyno am gymeradwyaeth fenthyca.
7. Caniateir cymeradwyaeth fenthyca yn amodol ar unrhyw amodau a bennir gan Weinidogion Cymru, a hynny ar ffurf llythyr a anfonir at Glerc y Cyngor. Mae'r llythyr cymeradwyo yn awdurdodi'r cyngor i fenthyca arian gan ddatgan yr uchafswm y gellir ei fenthyca, at ba ddiben y dylid defnyddio'r arian, o fewn pa gyfnod y gellir benthyca'r arian ac uchafswm y cyfnod ar gyfer ad-dalu'r benthyciad.
8. Mae'n arfer gan Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cymeradwyaeth fenthyca yn ystod y flwyddyn ariannol y defnyddir y gymeradwyaeth yn unig.
9. Gall cyngor fenthyca arian unrhyw adeg rhwng cyhoeddi'r gymeradwyaeth fenthyca a diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r gymeradwyaeth fenthyca yn berthnasol iddi. Gellir cario unrhyw arian a fenthycwyd ond nas gwariwyd cyn diwedd y flwyddyn ariannol ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

ATODIAD 1

Gwneud Cais am Gymeradwyaeth Fenthyca

Mae ffurflen Cymeradwyaeth Fenthyca ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn:
<http://llyw.cymru/topics/localgovernment/communitytowncouncils/publications/?lang=cy>



Dylid ateb pob cwestiwn ar y ffurflen gais a rhaid i'r ffurflen gael ei llofnodi gan Glerc y Cyngor.

Rhaid anfon, gyda'r ffurflen gais, gopi o'r ddogfen neu'r adroddiad a luniwyd gan y Cyngor pan benderfynwyd gwneud cais am gymeradwyaeth fenthyca (ee cofnodion y Cyngor).

Pan fo swm y benthyciad arfaethedig yn fwy na £50,000, dylid hefyd cynnwys arfarniad ariannol a/neu gynllun busnes ar gyfer y prosiect.

Os oes angen penderfyniad ar frys, mae'n ofynnol i gynghorau ofyn i'w cais gael ei ystyried y tu allan i'r amserlenni arferol ac egluro pam mae'r cais yn un brys.



Dylid anfon y ffurflen gais ac unrhyw ddogfennau ategol i:

Yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu anfonwch e-bost i LGFPmail@gov.wales



Gweinidogion Cymru fydd yn asesu'r cais am gymeradwyaeth fenthyca. Dylai gymryd tua 25 diwrnod gwaith fel arfer i gais am gymeradwyaeth fenthyca gael ei brosesu, a hynny o'r dyddiad y'i derbynir gan Lywodraeth Cymru. Dylech gadw mewn cof y gallai'r cyfnod hwn gael ei ymestyn, er enghraifft pan na fydd Gweinidogion Cymru ar gael yn ystod toriad y Cynulliad neu adeg etholiadau.

Sefydliad sy'n cynrychioli cynghorau cymuned a thref yw Un Llais Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi copi o bob cais am gymeradwyaeth fenthyca i Un Llais Cymru er mwyn cael ei farn ddiuedd a fydd y gymuned leol yn elwa yn sgil y prosiect. Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi nad yw pob cyngor yn aelod o Un Llais Cymru a gwneir hyn at ddibenion sicrhau bod pob cais yn cael ei ystyried yn unol â meini prawf cyson. Er bod barn Un Llais Cymru yn cael ei hystyried, Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

MEINI PRAWF AR GYFER ASESU CAIS AM GYMERADWYAETH FENTHYCA

Pryd ddylai Cyngor Cymuned neu Dref wneud cais?

10. Ni ddylai Cyngor wneud cais am gymeradwyaeth fenthyca hyd nes y bydd wedi:-
- i Cwblhau'r holl drafodaethau, neu phan fo'n hyderus y bydd yn cwblhau unrhyw drafodaethau perthnasol;
 - ii Cael pob caniatâd arall sy'n angenrheidiol e.e. caniatâd cynllunio;
 - iii Amcangyfrif cost y prosiect yn llawn fel rhan o gyllideb wariant ffurfiol;
 - iv Darparu ar gyfer rheoli'r ddyled o fewn ei gyllideb ffurfiol;
 - v Yn achos prosiectau mawr (e.e. dros £50k), paratoi cynllun busnes / gwerthusiad ariannol, a ddylai fod ar gael at ddibenion craffu;
 - vi Dod yn hyderus y gellir defnyddio'r gymeradwyaeth fenthyca, os ceir cymeradwyaeth o'r fath, o fewn y flwyddyn ariannol dan sylw.

At ba ddibenion y gall Cyngor Cymuned neu Dref fenthyca?

11. Gall unrhyw Gyngor Cymuned a Thref yng Nghymru wneud cais am gymeradwyaeth fenthyca at ddibenion caffael buddsoddiad cyfalaf, yn unol â'r diffiniad yn Adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. I'r perwyl hwn, mae "gwariant cyfalaf" yn golygu gwariant sy'n cael ei droi yn gyfalaf yn unol â'r "arferion priodol", ac ar hyn o bryd, mae "arferion priodol" yn golygu Cod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Dyma enghreifftiau o geisiadau o'r gorffennol a gafodd eu cymeradwyo:-
- Prynu tir
 - Prynu adeilad
 - Prynu cyfarpar ar gyfer parc
 - Llunio llwybr troed
 - Gwaith adnewyddu – gwaith strwythurol, gosod systemau gwresogi newydd, ceginau newydd, toiled newydd, to newydd.
12. Ni chaniateir cymeradwyaeth fenthyca i dalu am wariant cyfredol / refeniw. Er enghraifft:-
- Costau trwsio cyffredinol
 - Costau cynnal a chadw

Faint y gall Cyngor Cymuned neu Dref ei fenthyca?

13. Isafswm - ni fyddwn yn ystyried cynlluniau sy'n costio llai na'r ffigur a geir wrth luosi £5.00 â nifer yr enwau ar gofrestr etholwyr y gymuned, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol.

14. Uchafswm – ni phennir unrhyw uchafswm ar gyfer y swm y gall Cyngor wneud cais i'w fenthyca.

Dros ba gyfnod y gellir ad-dalu'r benthyciad?

15. Uchafswm y cyfnod sy'n cael ei gynnig i gynghorau cymuned a thref ad-dalu'r benthyciad yw 50 mlynedd. Gall cyngor ddewis ad-dalu'r benthyciad dros unrhyw gyfnod o flynyddoedd ond nid mwy na'r uchafswm sef 50 mlynedd.
16. Serch hynny, os bydd benthyciad yn para am fwy na 26 o flynyddoedd, bydd ystyriaethau ychwanegol yn berthnasol. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i gyfnod ad-dalu'r benthyciad adlewyrchu 'hyd oes' yr ased a ddarperir. Er enghraifft, gallai tir, ffyrdd neu adeiladau sylweddol gael eu hystyried yn 'asedau hirhoedlog' sy'n teilyngu cyfnod ad-dalu estynedig. Dylai cynghorau ystyried yn ofalus a yw'n ddoeth ad-dalu'r benthyciad dros y cyfnod hwyaf posibl. Yn yr achosion hynny lle bwriedir ymestyn y cyfnod ad-dalu, hynny yw dros 26 mlynedd, craffir ar y ceisiadau i weld a ellir cyfiawnhau'r estyniad.
17. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i gynghorau gael cyllideb realistig ar gyfer gwasanaethu ac ad-dalu'r ddyled a gall ofyn am gadarnhad bod cyllideb o'r fath wedi'i pharatoi a bod y darpariaethau hyn wedi'u cynnwys.

At ba ffynonellau y gall Cyngor Cymuned neu Dref droi am arian?

18. Gall Cynghorau Cymuned a Thref fenthyca arian trwy wneud cais i'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWL) neu sefydliadau priodol eraill y sector preifat. Bydd yn ofynnol i'r Bwrdd weld y gymeradwyaeth fenthyca wreiddiol cyn y gall gymeradwyo benthyciad.
19. Dylid ymdrechu i fenthyca'r arian ar y telerau mwyaf ffafriol posibl a gall benthycwyr gynnig amrywiaeth o drefniadau benthyc. Felly, rydym yn argymhell bod y Cyngor yn cael nifer o amcanbrisiau ar gyfer ad-dalu ac yn eu hystyried yn llawn.
20. **Nid** oes benthyciadau ar gael gan Lywodraeth Cymru.

AR ÔL RHOI CYMERADWYAETH FENTHYCA

Bydd pob cymeradwyaeth fenthyca yn ddilys tan 31 Mawrth y flwyddyn ariannol y mae'r gymeradwyaeth yn gymwys iddi.

Monitro cymeradwyaeth fenthyca

21. Cysylltir â'r cynghorau hynny sydd wedi derbyn cymeradwyaeth fenthyca yn ystod y flwyddyn ariannol i weld pa gynnydd a wnaed gyda'r prosiect. Gofynnir i'r cynghorau ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf a chadarnhau bod y gymeradwyaeth fenthyca wedi'i defnyddio neu y bydd yn cael ei defnyddio o fewn yr amserlen ofynnol.
22. Os yw'r swm benthyca a awdurdodwyd yn fwy na £50,000, rhaid cyflwyno adroddiad monitro byr o fewn 2 fis i gwblhau'r prosiect.

Beth os nad oes angen cymeradwyaeth fenthyca mwyach?

23. Os yw cyngor cymuned neu dref yn penderfynu nad yw am fenthyca'r swm cyfan a awdurdodwyd mwyach, neu na all wneud hynny mwyach, rhaid i Glerc y Cyngor roi gwybod i Lywodraeth Cymru pa swm y mae yn bwriadu ei fenthyca. Rhaid i'r hysbysiad hwn fod yn ysgrifenedig a rhaid ei wneud cyn gynted ag sy'n ymarferol resymol. Wedi hynny, ystyrir mai'r swm gostyngol a nodwyd yw'r swm a gymeradwywyd i'w fenthyg. Fodd bynnag, mae'r ystyriaethau o ran yr isafswm a nodir ym mharagraff 11 uchod yn berthnasol o hyd.
24. Os na fenthycir yr arian cyn 31 Mawrth y flwyddyn ariannol sy'n destun y gymeradwyaeth fenthyca, rhaid i'r Clerc ildio'r gymeradwyaeth trwy ddychwelyd y llythyr cymeradwyo **gwreiddiol** i'r cyfeiriad a nodir ym mharagraff 19 y nodyn hwn. Wedyn, byddai angen gwneud cais newydd ar gyfer blwyddyn arall.

Cysylltiadau defnyddiol

Un Llais Cymru
24 Stryd y Coleg
Rhydaman
Sir Gaerfyrddin
SA18 3AF

E-bost:

admin@onevoicewales.org.uk

Ffôn: 01269 595400

Ffacs: 01269 598510

Gwefan: www.unllaiscymru.org.uk

Public Works Loan Board
UK Debt Management Office
Eastcheap Court
11 Philpot Lane
Llundain
EC3M 8UD

E-bost : pwlb@dmo.gsi.gov.uk

Ffôn: 020 7862 6610

Gwefan: www.dmo.gov.uk